# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
## Offerynnau Statudol gydag Adroddiadau Clir
5 Hydref 2015

## CLA583 - Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Pwerau i Ddiystyru Hawddfreintiau a Cheisiadau gan Ymgymerwr Statudol) (Cymru) 2015

### Gweithdrefn: Cadarnhaol

Mae'r Gorchymyn hwn yn rhoi pwerau i awdurdodau lleol a chyrff eraill i ddiystyru hawddfreintiau a hawliau eraill sydd fel arall yn cyfyngu ar eu defnydd o dir sydd wedi ei gaffael neu ei neilltuo at ddibenion cynllunio. Gellir gwneud hyn dim ond os yw'r defnydd yn unol â chaniatâd cynllunio.

Mae'r Gorchymyn hwn hefyd yn datgymhwyso'r gofyniad i Weinidogion Cymru a'r Gweinidog priodol i benderfynu ar geisiadau cynllunio ac apeliadau penodol ar y cyd pan fo'r cais wedi ei wneud gan yr ymgymerwr statudol.

## CLA584 - Rheoliadau Microsglodynnu Cŵn (Cymru) 2015

### Gweithdrefn: Cadarnhaol

Mae'r Rheoliadau drafft yn darparu ar gyfer gorfodi gosod microsglodion ar gŵn a chofnodi manylion pob ci a manylion cyswllt ei berchennog ar gronfa ddata.

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi fel a ganlyn:

> "These draft Regulations address the comments made by the Constitutional and Legislative Affairs Committee in respect of the draft Regulations laid on 24 June and subsequently withdrawn in July 2014. The withdrawal allowed for officials to carry out further work to develop the current policy. This included the detailed consideration of the Committee's comments in relation to introducing standards for microchipping and database operators and the duties placed on owners and explore all options available to Welsh Government to best secure its policy aim.

# CLA585 - Gorchymyn Iechyd Planhigion (Coedwigaeth) (Diwygio) (Cymru) 2015

## Gweithdrefn: Negyddol

Mae Gorchymyn Iechyd Planhigion (Coedwigaeth) 2005 yn darparu ar gyfer atal y cyflwyniad a'r ymlediad o bla a chlefydon coed niweidiol (gan weithredu cyfraith UE).

Mae'r Gorchymyn hwn yn cymhwyso o ran Cymru ddarpariaethau penodol sydd wedi eu gwneud i ddiwygio Gorchymyn 2005 o ran Lloegr a'r Alban. Felly, mae'r Gorchymyn hwn yn darparu bod darpariaethau penodol yng Ngorchymyn 2005, sy'n gymwys o ran Lloegr a'r Alban yn unig ar hyn o bryd, yn gymwys hefyd o ran Cymru.

Mae'r Gorchymyn hwn hefyd yn gwneud diwygiadau canlyniadol i Orchymyn 2005.